



Papur Gwybodaeth

Yr ONS yn Ailddosbarthu Cymdeithasau Tai Cymru

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi cyhoeddi heddiw y cafodd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) eu hailddosbarthu fel Corfforaethau Cyhoeddus Anariannol a chânt eu hystyried yn gyrff sector cyhoeddus ar gyfer dibenion cyfrifon cenedlaethol.

Bydd y penderfyniad, a wnaed yn unol â'r System Cyfrifon Ewropeaidd, yn ychwanegu £2.5bn o ddyled i fantolen y Deyrnas Unedig, a chaiff ei ôl-ddyddio i 1996 oherwydd rheoliad yr ONS fod Deddf Tai 1996 yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth dros gymdeithasau tai.

Cyhoeddwyd penderfyniadau ar wahân hefyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan ailddosbarthu cymdeithasau yn y cenedloedd hynny fel sector cyhoeddus.

Cefndir y penderfyniad

Gwnaed penderfyniad tebyg gan yr ONS yng nghyswllt cymdeithasau tai Lloegr fis Hydref diwethaf, a ychwanegodd £60bn o ddyled i'r fantolen genedlaethol. Ystyriodd y penderfyniad hwnnw, ynghyd â'r rhai a wnaed heddiw, y pwerau y gall gwahanol lefelau o lywodraeth eu gweithredu ar fusnes cymdeithasau tai.

Y prawf allweddol a weithredir i benderfynu os yw corff yn un cyhoeddus neu breifat yw:

"...a yw'r llywodraeth yn gweithredu rheolaeth sylweddol dros bolisi corfforaethol cyffredinol yr uned? Mae canllawiau rhyngwladol yn diffinio rheolaeth fel y gallu i benderfynu ar bolisi corfforaethol cyffredinol, a gellir gweithredu hyn drwy benodi cyfarwyddwyr, rheoli dros hanner grym pleidleisio'r cyfranddalwyr, drwy ddeddfwriaeth arbennig, gorchymyn neu reoleiddiad."

Y penderfyniad

Drwy ei ymchwiliad i statws cymdeithasau tai Cymru, daeth yr ONS i'r casgliad fod cymdeithasau tai yn ddarostyngedig i fesurau rheoli sector cyhoeddus yn unol â dangosyddion rheoli a nodir mewn rheolau cyfrifeg rhyngwladol. Daeth yr ONS i'r casgliad fod cymdeithasau tai Cymru yn ddarostyngedig i reolaeth sector cyhoeddus oherwydd, ymysg pethau eraill:



1. Mae pwerau caniatâd Gweinidogion Cymru (a weithredir drwy adrannau 9 a 25 a pharagraffau 15 a 27 Atodlen 1 Deddf Tai 1996) am waredu tir a gwaredu asedau tai, yn ddangosydd o reolaeth sector cyhoeddus drwy offerynnau galluogi/ rheoleiddiad gormodol.
2. Mae pwerau Gweinidogion Cymru (a weithredir drwy Baragraff 4 Rhan II Atodlen 1 Deddf Tai 1996) dros reolaeth LCC, yn neilltuol bŵer Gweinidogion Cymru i symud swyddog o'r LCC os nad ydynt wedi gweithredu a bod eu methiant i weithredu yn llesteirio rheolaeth gywir busnes yr LCC, yn ddangosydd o reolaeth sector cyhoeddus drwy benodiad swyddogion/personél allweddol a/neu drwy offerynnau galluogi/rheoleiddiad gormodol.
3. Mae pwerau Gweinidogion Cymru (a weithredir drwy Baragraffau 6-8 a 15E Rhan 1 Atodlen 1 Deddf Tai 1996) dros reolaeth LCC, yn neilltuol bŵer Gweinidogion Cymru i benodi rheolwr neu swyddog newydd i'r LCC os yw'r Gweinidogion o'r farn bod angen cael swyddog ychwanegol ar gyfer rheoli busnes yr LCC yn gywir, yn ddangosydd o reolaeth sector cyhoeddus drwy benodiad swyddogion/personél allweddol a/neu drwy offerynnau galluogi/rheoleiddiad gormodol.
4. Mae pwerau Gweinidogion Cymru (a weithredir drwy Baragraffau 9 a 11 Rhan II Atodlen 1 Deddf Tai 1996) dros newidiadau cyfansoddiadol LCC, yn neilltuol y gofyniad am ganiatâd i unrhyw newid mewn erthyglau cymdeithasu LCC lle mae'r LCC yn gwmni (heblaw am newid enw neu gyfeiriad swyddfa gofrestrdig) yn ddangosydd o reolaeth y sector cyhoeddus drwy offerynnau galluogi/rheoleiddiad gormodol.
5. Mae pwerau caniatâd Gweinidogion Cymru (a weithredir drwy Baragraffau 12-13 Rhan II Atodlen 1 Deddf Tai 1996) dros uno a diddymu LCC, sy'n gymdeithas gofrestrdig a'r trefniant ac ailffurfio LCC sy'n gwmni, yn ddangosydd o reolaeth sector cyhoeddus drwy offerynnau galluogi/rheoleiddiad gormodol.
6. Mae pwerau Gweinidogion Cymru (a weithredir drwy Baragraff 15D Rhan II a Pharagraffau 20 a 22 Rhan IV Atodlen 1 Deddf Tai 1996) dros reolaeth LCC; yn neilltuol bŵer Gweinidogion Cymru i drosglwyddo swyddogaethau rheolaeth i berson a nodir ganddynt os canfu ymchwiliad (ar orchymyn Gweinidogion Cymru) neu archwiliad fod camreoli ym musnes yr LCC, neu os yw Gweinidogion Cymru yn teimlo y byddai trosglwyddo rhai o'r swyddogaethau rheolaeth yn debygol o wella rheolaeth peth neu'r cyfan o'i fusnes; yn ddangosydd o reolaeth sector cyhoeddus drwy benodiad swyddogion/personél allweddol a/neu drwy offerynnau galluogi/rheoleiddio gormodol.



Yn Lloegr, gwelsof hwyd nifer o elfennau pellach o reolaeth yn dod i'r amlwg wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaen rhwng Llywodraeth Cymru a'r ONS na chafodd eu cynnwys yn y penderfyniad gwreiddiol. Roedd hyn yn cynnwys materion megis y trefniadau Cyfranddaliad Aur ac enwebiadau awdurdodau lleol i fyrddau cymdeithasau tai rhwng Awdurdodau Lleol a sefydliadau Trosglwyddo Stoc. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r ONS i sicrhau fod gennym ddarlun llawn o'r mesurau rheoli y bydd angen eu trin os yw'r penderfyniad hwn i gael ei wrthdroi.

Beth yw goblygiadau'r penderfyniad?

Bydd y penderfyniad i ailddosbarthu yn ychwanegu tua £2.5bn o fenthyciadau cymdeithasau tai Cymru i'r ddyled yng Nghyfrifon Cenedlaethol y Deyrnas Unedig. Bydd yr ONS yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r cyfrifon cenedlaethol 'cyn gynted ag sydd modd'. Yn ymarferol, gall gymryd peth amser i weithredu hyn, fel gydag ailddosbarthiadau blaenorol.

Deallwn fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar ddarpariaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau na fydd unrhyw effaith sylweddol ar unwaith ar weithrediad dydd-i-ddydd cymdeithasau tai, a byddwn yn y dyfodol agos yn cyhoeddi papur gwybodaeth cyfreithiol mewn partneriaeth gyda Devonshires i gefnogi ein haelodau ar feysydd megis llywodraethiant a chyllid.

Fodd bynnag, yn yr hirdymor, rydym yn bryderus y bydd y penderfyniad yn agor y drws i'r Trysorlys osod terfynau fenthycia ar gymdeithasau tai, fel y gwnânt eisoes gydag awdurdodau lleol. Byddai hyn yn peryglu gallu cymdeithasau tai i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o 20,000 o dai fforddiadwy.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru wedi bod mewn cysylltiad gyda Llywodraeth Cymru a'r ONS ar y mater hwn ers cyhoeddi'r penderfyniad yn Lloegr, a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r ddau i sicrhau y dychwelir cymdeithasau tai i'r sector preifat.

Dywed datganiad heddiw gan Lywodraeth Cymru ar y cyhoeddiad:

"Rydym yn ymchwilio datrysiaid deddfwriaethol i fater ailddosbarthu a gall Cymdeithasau Tai fod yn hyderus y caiff ei ddatrys. Mae hyn yn golygu y byddant yn dal i allu benthyca o'r sector preifat er mwyn ein helpu i gyflawni ein targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn y tymor hwn o'r Cynulliad".

Community Housing Cymru

Croesawn y datganiad hwn a byddwn yn parhau i alw ar y Llywodraeth am weithredu deddfwriaethol cyflym a phenderfynol i wrthdroi penderfyniad heddiw. Credwn y bydd y Bil arfaethedig i ddod â'r Hawl i Brynu yng Nghymru i ben yn gyfrwng deddfwriaethol addas i gynnwys y cymalau sydd eu hangen i drin y mesurau rheoli a ddynodwyd gan yr ONS.

Mae profiad o'r broses deddfwriaethol i wrthdroi penderfyniad yng Nghymru, gyda cholegau Addysg Bellach wedi bod drwy broses debyg ar ôl eu hailddosbarthu yn 2010. Byddwn yn ceisio defnyddio profiad partneriaid mewn Addysg Uwch a gweithio'n agos gyda'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol i ddeall eu profiadau o'r broses hon yn Lloegr.